

## Cais o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 am Drwydded Safle.

### Canllawiau i Ymgeiswyr.

Cyn llenwi'r ffurflen gofynnir ichi ddarllen Polisi Hapchwarae y Cyngor a'r nodiadau cyfarwyddyd ar ddiwedd y ffurflen, ynghyd â'r codau ymarfer a'r dogfennau cyfarwyddyd a ddarperir gan y Comisiwn Hapchwarae (sydd ar gael ar y wefan [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk)), a'r taflenni cyfarwyddyd ategol.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llawysgrifen, a fydddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio **priflythrennau**. Ym mhob achos gofalgwch fod eich atebion o fewn llinellau'r blychau ac **wedi'u hysgrifennu mewn inc du**. Defnyddiwch dalennau ychwanegol os bydd angen. Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.

**Awgrymir yn gryf** fod ymgeiswyr yn ymgynghori â'r Awdurdod Trwyddedu, yr awdurdodau cyfrifol (gweler Atodiad B, Polisi Hapchwarae y Cyngor), a busnesau a phreswylwyr lleol wrth lunio'u hamserlenni gweithredu. Cred yr Awdurdod Trwyddedu yn gryf y bydd hyn yn cynorthwyo ymgeiswyr i glustnodi problemau posibl fel y gellir ymdrin â hwy cyn eu bod yn digwydd, a lliniaru ofnau'r cyfryw fusnesau a phreswylwyr o ran effaith y trefniadau trwyddedu newydd.

### **Ceisiadau Llwybr Carlam** (Ceisiadau Addasu Trosiannol)

Wrth gyflwyno ceisiadau llwybr carlam rhaid cynnwys copi o'r Drwydded Hapchwarae bresennol hefyd.

### **Cyflwyno hysbysiad ynghylch ceisiadau** (heblaw am geisiadau llwybr carlam)

Yn achos cais am drwydded safle, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y cais hysbysebu'r cais, a hynny yn y modd penodedig gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn y rheoliadau ynghylch trwyddedau safle a datganiadau amodol: -

1. Mae'n rhaid i unigolyn sy'n gwneud cais (heblaw am gais llwybr carlam) gyflwyno hysbysiad ynghylch y cais i bob un o'r awdurdodau sydd, yn unol ag Adran 157, yn awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â'r safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
2. Mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad o dan baragraff (1) cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r cais yn cael ei gyflwyno.
3. Os yw'r paragraff hwn yn berthnasol mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad ynghylch ei gais -

- (a) Mewn papur newyddion lleol neu, os nad oes un, mewn llythyr newyddion neu gylchlythyr lleol neu mewn dogfen debyg, a ddsberthir yn ardal yr awdurdod trwyddedu, a hynny o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r cais yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod; a
- (b) Drwy arddangos hysbysiad ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef -
  - i. Mewn man lle mae'n gallu cael ei ddarllen yn gyfleus gan y cyhoedd o'r tu allan i'r safle;
  - ii. Am gyfnod o 28 diwrnod olynol o leiaf gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cais yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu.

4. Os oes materion wedi eu cynnwys mewn cromfachau sgwâr mewn unrhyw ffurflen yn Atodlen 6, y bwriad yw nodi ac egluro'r wybodaeth i'w chynnwys yn yr hysbysiad y mae'r ffurflen yn ymwneud ag ef, ac nid oes angen eu cynnwys yn yr hysbysiad.

Mae enghreifftiau o Awdurdodau Cyfrifol a hysbysïadau cyhoeddus wedi eu hatodi.

## **Cynlluniau – (Pob cais am drwydded safle)**

Mae'n rhaid cyflwyno cynllun o'r safle gyda'r ffurflen gais gan gydymffurfio â gofynion canlynol y rheoliadau.

- 1. Mae'n rhaid i'r cynllun ddangos –
  - (a) hyd a lled terfyn a pherimedr y safle;
  - (b) Os yw'r safle'n un adeilad neu fwy, neu os yw'n cynnwys un adeilad neu fwy, leoliad unrhyw waliau allanol pob adeilad o'r fath;
  - (c) Os yw'r safle'n rhan o adeilad, leoliad unrhyw waliau allanol neu fewnol yr adeilad sydd wedi eu cynnwys ar y safle;
  - (d) Os yw'r safle'n llong neu'n rhan o long, leoliad unrhyw ran o ochrau'r llong, ac unrhyw waliau mewnol y llong, sydd wedi eu cynnwys ar y safle;
  - (e) Lleoliad pob mynedfa ac allanfa ar y safle, gan gynnwys ym mhob achos ddisgrifiad o'r man lle y ceir mynediad neu i le mae'r allanfa'n arwain; ac
  - (f) Unrhyw fater arall sydd ei angen yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.
  
- 2. Yn achos cais am drwydded **safe bingo** mewn perthynas â safle y caniateir i blant neu bobl ifanc gael mynediad iddo, mae'n rhaid i'r cynllun ddangos -
  - (a) Lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle a gaiff ei defnyddio i ddarparu cyfleusterau hapchwarae o dan y drwydded (heblaw am y rhannau hynny sy'n cynnwys peiriannau hapchwarae Categori B neu C);
  - (b) Lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori C neu B ar gael i'w defnyddio o dan y drwydded;
  - (c) Natur a lleoliad unrhyw rwystr neu rywbeth arall sy'n gwahanu unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori B neu C ar gael i'w defnyddio, oddi wrth unrhyw ran arall o'r safle.

3. Yn achos cais am drwydded safle **canolfan hapchwarae i oedolion**, mae'n rhaid i'r cynllun ddangos lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio o dan y drwydded.

4. Yn achos cais am drwydded safle **canolfan adloniant teulu**, mae'n rhaid i'r cynllun ddangos -

(a) Lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori C ar gael i'w defnyddio o dan y drwydded;

(b) Lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori D ar gael i'w defnyddio o dan y drwydded; a

(c) Natur a hyd a lled unrhyw rwystr neu rywbeth arall sy'n gwahanu unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori C ar gael i'w defnyddio, oddi wrth unrhyw ran arall o'r safle.

5. Yn achos cais am drwydded **safle betio**, heblaw am gais mewn perthynas â thrac, mae'n rhaid i'r cynllun ddangos lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle a gaiff ei defnyddio i ddarparu cyfleusterau hapchwarae o dan y drwydded.

6. Yn achos cais am **drwydded safle betio mewn perthynas â thrac**, mae'n rhaid i'r cynllun ddangos -

(a) Lleoliad a hyd a lled unrhyw ran o'r safle sy'n fan betio sy'n destun y rheol pum gwaith;

(b) Lleoliad a hyd a lled unrhyw rannau eraill o'r safle a gaiff eu defnyddio i ddarparu cyfleusterau betio o dan y drwydded;

(c) Lleoliad a hyd a lled unrhyw rannau eraill o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori B neu C ar gael i'w defnyddio o dan y drwydded;

(d) Natur a lleoliad unrhyw rwystr neu rywbeth arall sy'n gwahanu unrhyw ran o'r safle lle bydd peiriannau hapchwarae Categori B neu C ar gael i'w defnyddio, oddi wrth unrhyw ran arall o'r safle.

7. Yn y rheoliad hwn -

(a) Ystyr "gweithredwr betio" yw rhywun sy'n derbyn neu'n trafod betiau yng nghwrs busnes deiliad trwydded weithredu betio cyffredinol neu drwydded weithredu betio pŵl;

(b) Ystyr "man betio sy'n destun y rheol pum gwaith", mewn perthynas â thrac, yw unrhyw ran o'r trac lle, yn unol â'r amodau sy'n rhan o Adran 167, na chaniateir i'r tâl mynediad a godir ar weithredwyr betio i'r rhan honno o'r trac fod yn fwy na phum gwaith cost y tâl uchaf a delir gan aelodau o'r cyhoedd y mae ganddynt awdurdod i fynd i mewn i'r rhan honno o'r trac;

(c) Ystyr "ardal nad yw'n ymwneud â hapchwarae" yw unrhyw ran o'r casino arfaethedig -

i. A fydd ar gael i gwsmeriaid ond na chaiff ei defnyddio ar gyfer darparu cyfleusterau hapchwarae, ac

- ii. A fydd, oni bai ei bod yn lobi neu'n doiledau, yn cynnwys cyfleusterau hamdden i'w defnyddio gan gwsmeriaid ar y safle;
- (d) Ystyr "bwrdd hapchwarae rhannol awtomataidd" yw offer a fyddai'n cydymffurfio â'r diffiniad o beiriant hapchwarae yn Adran 235 ond sy'n cael ei eithrio o'r diffiniad hwnnw gan is-adran (2)(h) o'r adran honno;
- (e) Ystyr "man hapchwarae ar fwrdd" yw unrhyw ran o'r casino a gaiff ei defnyddio ar gyfer

Gemau casino sy'n cael eu chwarae ar fyrddau hapchwarae (gan gynnwys byrddau hapchwarae cwbl awtomataidd neu rannol awtomataidd); neu

Gemau go iawn o siawns gyfartal, heblaw bingo, sy'n cael eu chwarae ar fwrdd; ac

- (f) Ystyr "bwrdd hapchwarae cwbl awtomataidd" yw offer a fyddai'n cydymffurfio â'r diffiniad o beiriant hapchwarae yn Adran 235 ond sy'n cael ei eithrio o'r diffiniad hwnnw gan is-adran (2)(i) o'r adran honno.

## Ffioedd Trwyddedau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y ffioedd perthnasol am wneud cais sydd wedi'u pennu gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Hapchwarae 2005.

<b>Math o Safle</b>	<b>Cais Llwybr Carlam Trosiannol</b>	<b>Cais Trosiannol nad yw'n un Llwybr Carlam</b>		<b>Cais Newydd</b>	<b>Ffi Flynyddol</b>		
	<b>£</b>	<b>£</b>		<b>£</b>	<b>£</b>		
Clwb Bingo	<b>202</b>	<b>842</b>		<b>1648</b>	<b>480</b>		
Safle Betio (ac eithrio traciau)	<b>198</b>	<b>721</b>		<b>1415</b>	<b>302</b>		
Traciau	<b>144</b>	<b>600</b>		<b>1200</b>	<b>480</b>		
Canolfannau Adloniant Teulu	<b>207</b>	<b>648</b>		<b>1237</b>	<b>468</b>		
Canolfan Hapchwarae i Oedolion	<b>202</b>	<b>645</b>		<b>1236</b>	<b>623</b>		
	<b>Cais am Amrywio</b>	<b>Cais am Drosglwyddo</b>	<b>Cais am Adfer</b>	<b>Cais am Ddatganiad Amodol</b>	<b>Cais am Drwydded (deiliaid datganiad amodol)</b>	<b>Copi o Drwydded</b>	<b>Hysbysiad ynghylch Newid</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Clwb Bingo	<b>840</b>	<b>576</b>	<b>576</b>	<b>1680</b>	<b>576</b>	<b>25</b>	<b>50</b>
Safle Betio (ac eithrio traciau)	<b>720</b>	<b>576</b>	<b>576</b>	<b>1440</b>	<b>576</b>	<b>25</b>	<b>50</b>
Traciau	<b>600</b>	<b>456</b>	<b>456</b>	<b>1200</b>	<b>456</b>	<b>25</b>	<b>50</b>
Canolfannau Adloniant Teulu	<b>640</b>	<b>608</b>	<b>608</b>	<b>1280</b>	<b>608</b>	<b>25</b>	<b>50</b>
Canolfannau Hapchwarae i Oedolion	<b>640</b>	<b>768</b>	<b>768</b>	<b>1280</b>	<b>768</b>	<b>25</b>	<b>50</b>

Dylai pob sicr fod yn daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin".

**Manylion Cyswilt yr Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol.**

<p><b><u>Yr Awdurdod Trwyddedu</u></b></p> <p>Yr Adain Drwyddedu Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Cyngor Sir Caerfyrddin 3 Heol Spilman Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1LE</p>	<p>Rhif Ffôn: 01267 234567</p> <p>E-bost: <a href="mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk">diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk</a></p>
<p><b><u>Y Comisiwn Hapchwarae</u></b></p> <p>Victoria Square House Victoria Square Birmingham B2 4BP</p>	<p>Rhif Ffôn: 0121 230 6500</p> <p>E-bost: <a href="mailto:info@gamblingcommmission.gov.uk">info@gamblingcommmission.gov.uk</a></p> <p>Rhif ffacs: 0121 237 2236</p>
<p><b><u>Cyllid a Thollau ei Mawrhydi</u></b></p> <p>National Registration Unit Portcullis House 21 India Street Glasgow G2 4PZ</p>	<p>Rhif Ffôn: 0141 555 3633</p> <p>E-bost: <a href="mailto:nrbetting&amp;gaming@hmsc.gsi.gov.uk">nrbetting&amp;gaming@hmsc.gsi.gov.uk</a></p>
<p><b><u>Yr Awdurdod Cynllunio</u></b></p> <p>Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin 40 Heol Spilman Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1LQ</p> <p><b>Neu,</b> Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn achos safleoedd sydd o fewn ei ardal weinyddol</p> <p>Y Swyddog Gorfodi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Plas y Ffynnon Ffordd Cambria Aberhonddu Powys LD3 7HP</p>	<p>Rhif Ffôn: 01267 224663 / 01267 224882 / 01267 224118</p> <p>E-bost: <a href="mailto:cynllunio@sirgar.gov.uk">cynllunio@sirgar.gov.uk</a></p> <p>Rhif ffacs: 01267 237612</p> <p>Rhif ffôn: 01874 620431 E-bost: <a href="mailto:planning.enquiries@breconbeacons.org">planning.enquiries@breconbeacons.org</a> Rhif ffacs: 01874 622524</p>

<p><b><u>Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd</u></b></p> <p>Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel  Cyngor Sir Caerfyrddin  3 Heol Spilman  Caerfyrddin  Sir Gaerfyrddin  SA31 1LE</p>	<p>Rhif Ffôn: 01267 234567</p> <p>E-bost: <a href="mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk">diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk</a></p>
<p>Heddlu Dyfed-Powys  Swyddog Trwyddedu yr Heddlu  d/o Gorsaf yr Heddlu  Heol y Ffowndri  Rhydaman  Sir Gaerfyrddin  SA18 2LS</p>	<p>Rhif Ffôn: 101 Est 26464</p> <p>E-bost: <a href="mailto:Mike.Price@Dyfed-Powys.pnn.police.uk">Mike.Price@Dyfed-Powys.pnn.police.uk</a></p> <p>Rhif Ffacs: 01269 591892</p>
<p>Comander y Sir  Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  Pencadlys Ardal Reoli Sirol Sir  Gaerfyrddin  Lôn Pisgwydd  Caerfyrddin  Sir Gaerfyrddin  SA31 1SP</p>	<p>Rhif Ffôn: 0870 6060699</p> <p>E-bost : <a href="mailto:Mail@Mawwfire.gov.uk">Mail@Mawwfire.gov.uk</a></p> <p>Rhif Ffacs: 01267 222382</p>
<p>Rheolwr Bwrdd Lleol Diogelu Plant  Yr Adran Addysg a Phlant  Cyngor Sir Caerfyrddin  Parc Dewi Sant  Caerfyrddin  Sir Gaerfyrddin  SA31 3HB</p>	<p>Rhif ffôn: 01267 228916</p> <p>Cyfeiriad e-bost: <a href="mailto:gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk">gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk</a></p> <p>Rhif ffacs: 01267 228908</p>

Dylai'r ymgeiswyr am drwyddedau ar gyfer llongau o bob math gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael gwybodaeth ychwanegol.